

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 2 Gorffennaf, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Alun Jenkins (yn y Gadair), Brython Davies, Jane Hopkins, Phil Lloyd, James Raw.

1. YMDDIHEURIADAU

Eluned Evans, Rhodri Jenkins, Elise Powell, Cyng. Rhodri Davies.

2. COFNODION 4 Mehefin, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Brython Davies.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Blwch Ffônau Coch. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Gyngor Bro Llanfair Clydogau yn nodi nad oedd llawer o ffordd yn mabwysiadu'r blychau ffonau coch gan nodi pa mor bwysig yw cadw'r blychau yma o ran eicon hanesyddol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda BT yn cadarnhau y byddai ddiddordeb gan y Cyngor Bro mewn mabwysiadu'r blychau ffon yn Nhrisant a Chwmystwyth. Cynnigwyd y penderfyniad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Brython Davies.

(b) Loriau ail -gylchu/biniau: Adroddodd Jane Hopkins fod yna broblem gyda chasgliadau y sbwriel yn rhai o'r tai ar y ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth. Nid oedd ambell i dy wedi cael casgliad ers sawl wythnos. Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at hyn.

(c) Dwr yng Nghwmystwyth

Adroddodd y Clerc bod Swyddog o'r Cyngor Sir wedi cwblhau profion ar y dwr ar dir Gate Cottage ond nid oedd y canlyniadau wedi ei derbyn hyd yn hyn.

4. GOHEBIAETH

(a) Trafodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

(i) A150442 Estyniad Llawr Gwaelod, Glantrisant, Trisant.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

(ii) A150441 Llinellau Trydan, Nant Cwm Du Hydro.

Datganodd James Raw ddiddordeb wrth drafod yr uchod. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.

(iii) A15029 Alterations and extension to an existing dwelling, including outbuildings and garden structures. Tynglog, Cwmystwyth.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oes gwrthwynebiad mewn egwyddor gan aelodau'r Cyngor Bro ar gyfer moderneiddio bythynnod bach cerrig ond mae'r estyniadau arfaethedig ac adeiladau yn yr ardd o fewn y cais hwn yn ymddangos i fod yn gynlluniau mawr ar gyfer y Bwthyn hwn gyda chladin rhychiog llwyd tywyll nad sy'n cyd -fynd â bythynnod eraill o fewn yr ardal .

Nid yw defnyddio gormodedd o ddeunyddiau modern ar fwthyn traddodiadol cymreig yn gweddu i'r amgylchedd a chymeriad y bythynnod.

- (b) **Safle We :** Derbyniwyd ohebiaeth gan Lyfrgell Cenedlaethol Cymru yn ymholi a fyddai diddordeb gan y Cyngor Bro mewn cynnwys safle we y Cyngor Bro fel rhan o Archif We y DU. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r cais a'r clerc i gwblhau'r gwaith papur perthnasol.
- (c) **Toiledau ym Mhontarfynach**
Deallwyd nad oedd modd ar hyn o bryd cael cyfleusterau ar agor yn yr ardal yn ystod misoedd y Gaeaf. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi am ymestyn oriau agor y toiledau yn ystod yr Haf.
- (ch) **Cyfeiriwyd y Clerc at ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Cynulliad yn tynnu sylw aelodau'r Cyngor Bro at Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.** Bil yw hwn sy'n rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar ddarparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn eu hardaloedd.
- (d) **Derbyniwyd ohebiaeth wrth Yr Adran Ynni a newid hinsawdd yn ymwneud â Gweithredu 2008 (fel y'i diwygiwyd) a chynllunio seilwaith Cynllunio (Rheolau gweithdrefn Archwilio 2010 (fel y'i diwygiwyd).** Cais gan Mynydd y Gwynt Cyf am ganiatâd datblygu trefn ar gyfer Fferm Mynydd y Gwynt Gwynt. Roedd yr ohebiaeth yn tynnu sylw y derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r cais uchod.
- (dd) **Derbyniwyd wybodaeth wrth yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwneud a "Dyfed County Council - Wildlife & Countryside Act 1981 - Definitive Map Reclassification Order 1991 "Upper Llanfihangel" Rups 20/37, 20/38, 20/44.**

5. CYLLID

Nodwyd fod £346.88 yn y cyfrif cyfredol a £8,650.37 yn y cyfrif cadw ar y diwrnod hwnnw.

6. UNRHYW FATER ARALL

- (a) **Tynnwyd sylw fod angen torri y gwrych wrth y ty piws gerllaw Nantwatkin yng Nghwmystwyth gan ei fod yn tyfu allan i'r ffordd ac yn beryglus i gerbydau.** Cyfeiriwyd hefyd fod coeden leylandii yn tyfu allan i'r llwybr cerdded gyferbyn a'r Gofgolofn ym Mhontarfynach.
Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at yr uchod.
- (b) **Nodwyd hefyd fod arwydd arwerthwr tai lleol yn rhwystro gwelededd i yrrwyr wrth yrri o'r ffordd B4343 wrth ymuno gyda'r A4120 ger y Gofgolofn ym Mhontarfynach**

7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 3ydd Medi, 2015 yn Ysgol Mynach.